# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2015.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Philip Downing | Adran Etholiadol: | Pontarddulais |
|---|---|---|---|

| **Swydd Cyflog Uwch:** | Cadeirydd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar yr Economi a Buddsoddi (ers 3 Mawrth 2015) |
|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Cynhaliais ddwy gymhorthfa gyngor bob mis rhwng 5 a 7pm. Cynhaliwyd pob sesiwn yng Nghanolfan y Bont. Euthum i'r cyfarfodydd PACT lleol yn rheolaidd ac ymdrin â chwynion ac ymholiadau a gododd.

Fel aelod o Gyngor Tref Pontarddulais a chyn-Faer, euthum i'r cyfarfodydd misol yn rheolaidd. Mae cofnodion y cyfarfodydd hyn a phresenoldeb ynddynt i'w gweld ar wefan y cyngor yn www.pontarddulaistowncouncil.gov.uk roeddwn, ac rwy'n parhau i fod, yn gadeirydd y Pwyllgor Cyllid. Mae'r cyngor tref yn darparu amrywiaeth o wasanaethau lleol, gan gynnwys: trefnu i'r sefydliad ddarparu lle ar gyfer sefydliadau cymunedol, lle swyddfa i'r heddlu, arddangosfeydd blodau o gwmpas y dref, sioeau ffilm i blant, cyfraniadau i Orymdaith y Nadolig, addurniadau, coed, a phantomeim, yn ogystal â chymorth ariannol at achosion teilwng, o fewn ffiniau'r dref.

Roeddwn, ac rwyf o hyd, yn gadeirydd adnoddau yn Ysgol Gyfun Pontarddulais, a hefyd yn is-gadeirydd Ysgol Gynradd Pontarddulais. Mae bod yn llywydd Clwb Pêl-droed Pontarddulais yn anrhydedd i mi. Mae gan y clwb 2 dîm i ddynion ac wrthi'n cyflwyno tîm i fenywod. Hefyd, mae gennym 12 tîm ar lefelau merched a bechgyn.

**Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Dangosir % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor isod:

| | | |
|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 7 / 7 | 100% |
| Pwyllgor Archwilio | 7 / 9 | 78% |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet – Cymunedau | 1 / 3 | 33% |
| Y Cyngor | 16 / 17 | 94% |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 7 / 7 | 100% |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar yr Economi a Buddsoddi | 7 / 7 | 100% |
| Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | 14 / 16 | 88% |
| Is-bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | 1 / 1 | 100% |
| Pwyllgor y Gronfa Bensiwn | 6 / 6 | 100% |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet – Pobl | 4 / 4 | 100% |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 13 / 16 | 81% |
| Pwyllgor Safonau | 16 / 22 | 73% |
| Pwyllgor Trwyddedu Statudol | 4 / 5 | 80% |
| Is-bwyllgor Trwyddedu Statudol | 2 / 2 | 100% |
| **CYFFREDINOL** | **105 / 122** | **86%** |

Cyfarfodydd Craffu:

| | | |
|---|---|---|
| Gweithgor Craffu Gwasanaethau Adeiladu ac Eiddo Corfforaethol | 0 / 1 | 0% |
| Gweithgor Craffu Gwasanaethau Cynllunio | 2 / 2 | 100% |

| | | |
|---|---|---|
| Panel Perfformiad Craffu Gwella Gwasanaethau a Chyllid | 13 / 14 | 93% |
| Panel Ymchwilio Craffu Strydlun | 2 / 3 | 67% |
| **CYFFREDINOL** | **17 / 20** | **85%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd

Cefais fy mhenodi'n gadeirydd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar yr Economi a Buddsoddi ym mis Mawrth 2015 a phennir llwyth gwaith y pwyllgor hwn gan aelodau amrywiol y Cabinet.

Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu, sy'n edrych ar yr holl geisiadau trwyddedu yn Ninas a Sir Abertawe.

Roeddwn hefyd yn is-gadeirydd Panel Cronfa Bensiwn y cyngor.

Un o'r cyrff allanol rwyf wedi bod yn aelod ohono yw'r Tribiwnlys Prisio. Mae hyn yn edrych ar apeliadau gan fusnesau ac unigolion sy'n cwyno am eu trethi.

Cyfranddaliwr y cyngor ar Gwmni Gwaredu Gwastraff Abertawe.

Cefais nifer sylweddol o alwadau ffôn, pobl yn galw i'm tŷ ac ymwelwyr â'm cymorthfeydd misol yn ceisio cyngor a chymorth ar amrywiaeth o faterion. Gyda 281 o dai'n eiddo i'r cyngor ym Mhontarddulais, cefais gryn nifer o ymholiadau'n ymwneud â'r rhain. Rwyf bob amser yn barod i wrando ar eu pryderon a chynnig cyngor a chefnogaeth briodol. Roeddwn yn cerdded ac yn gyrru o gwmpas y ward yn rheolaidd, ac yn rhoi gwybod am ddiffygion megis tyllau yn y ffordd, goleuadau stryd nad ydynt yn gweithio mewn ardaloedd preswyl, arwyddion ffordd wedi'u difrodi a thipio anghyfreithlon.

## Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Yn dilyn sylwadau gan etholwyr, caffaelais welliannau ffyrdd a phalmentydd. Roeddwn yn cefnogi ac yn cyd-drafod yn barhaol dros ddymuniadau poblogaeth Pontarddulais lle roedd tystiolaeth o bryder, potensial ar gyfer datblygu gwasanaethau a ffordd well o fyw ac angen i gefnogi datblygiadau posibl er lles y gymuned.

Gweithiais i ddatblygu ymagweddau partneriaeth cynaliadwy ar draws grwpiau cymunedol (Cyfeillion Parc Coed Bach a Phartneriaeth Pontarddulais) a'r cyngor i gyflwyno man sglefyrddio a gosod mannau parcio ychwanegol yn y parc.

Cyfarfûm â swyddogion i wella'n stoc tai i ddod â nhw at Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC). Rwyf hefyd wedi cyfarfod â Hydar yn ogystal â swyddogion i drafod cam 2 yr astudiaeth cludiant yn ogystal â'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) gan y bydd yn effeithio ar Bontarddulais.

## Adran 5: Dysgu a Datblygu

Rwyf wedi bod i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

| | |
|---|---|
| 03/07/14 | Diogelu Data (gan gynnwys rôl y rheolwr data) |
| 03/07/14 | Rhyddid Gwybodaeth |

| | |
|---|---|
| 05/08/14 | Cynnwys y Cyhoedd |
| 14/08/14 | Manteisio i'r Eithaf ar eich Tabled/Ffôn Clyfar |
| 23/10/14 | Diogelu |
| 25/11/14 | Y Ffordd Orau o Ddefnyddio Gwybodaeth am Berfformiad |
| 09/12/14 | Difenwi |
| 23/02/15 | Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl |
| 17/04/15 | Pwyllgor Safonau a Chôd Ymddygiad |

Ym mis Medi 2014, euthum i seminar dau ddiwrnod ar ran y Panel Pensiwn, fel rhan o'm hyfforddiant parhaol.

## Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill

Euthum bron i holl gyfarfodydd y cyngor tref ac, fel cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, euthum i holl gyfarfodydd yr is-bwyllgorau. Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am bennu treth y cyngor a monitro gwariant y cyngor trwy gydol y flwyddyn.

Euthum i gyfarfodydd Partneriaeth Adnewyddu Pontarddulais yn rheolaidd yr wyf yn ymddiriedolwr iddi. Mae'r bartneriaeth yn gweithio gydag etholwyr a sefydliadau Pontarddulais i gael asesu anghenion cymunedol, grantiau mynediad, cefnogi cyflwyno datblygiadau.

## Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr

Cyflog Sylfaenol: £13,300 (hyd at 3 Mawrth 2015)
Cyflog Uwch: £22,000 (ers 3 Mawrth 2015)

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 11.06.15 |